Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun gweithredu LHDTC+

## Ein cynllun i greu Cymru well i bobl LHDTC+

## Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cynllun Gweithredu LHDTC+'**

**Gorffennaf 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ein bod **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan**: Heb ganfod y dudalen | LLYW.CYMRU

**E-bost**: LGBTQ+ActionPlan@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen yma, **cliciwch yma**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad..................................................................4**
**Pam bod y cynllun gweithredu yma yn bwysig?..............8**
**Cynllun gweithredu...................................................10**
Gweithredu ar gyfer pob rhan o fywyd..............................10
Gweithredu ar gyfer hawliau dynol....................................13
Gweithredu i wneud yn siŵr bod pobl LHDTC+ yn ddiogel..........................................................................14
6BGweithredu ar gyfer cartrefi a chymunedau................ 15
Gweithredu ar gyfer chwaraeon a diwylliant....................17
12BGweithredu ar gyfer grwpiau ffydd.............................. 19
13BGweithredu ar gyfer digartrefedd............................... 19
Gweithredu ar gyfer cefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid......................................................................... 20
7BGweithredu ar gyfer gwella iechyd...............................21
Gweithredu ar gyfer addysg............................................. 23
9BGweithredu ar gyfer y gweithle.......................................24
Gweithredu o Covid-19...................................................... 25
**Geiriau anodd..............................................................26**

# Cyflwyniad



Dyma ein cynllun ar gyfer beth fyddwn ni yn ei wneud i wneud Cymru yn wlad well i bobl **LHDTC+**.

**LHDTC+** yn meddwl **Lesbiad**, **Hoyw**, **Deurywiol**, **Trawsrywiol.** **Queer** neu **Cwestiynu** ac eraill.

Dyma gymuned o bobl sydd yn rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw yn ei garu:

- **Lesbiaid** ydy menywod sydd yn hoffi menywod eraill.
- Dynion **hoyw** ydy dynion sydd yn hoffi dynion eraill.
- Pobl **deurywiol** ydy pobl sydd yn hoffi dynion a menywod.
- Pobl **trawsrywiol** ydy pobl sydd yn cael eu geni fel un rhyw ond sydd y rhyw arall. Er enghraifft, efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn fenyw ar y tu mewn.
- Er bod **Queer** wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl **LHDTC+** , mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd positif pan maen nhw'n teimlo nad ydy geiriau fel syth, **hoyw** a **lesbiad** yn eu disgrifio go iawn.
- **Cwestiynu** ydy ar gyfer pobl sydd yn dal i weithio allan pwy ydyn nhw a sut maen nhw'n uniaethu.



Mae gan **bawb** yr hawl i fod yn ddiogel.



Mae gan **bawb** hawl i fod yn  nhw eu hunain a pheidio dioddef **gwahaniaethu**.



**Gwahaniaethu** ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu oherwydd pwy ydych chi a phwy rydych chi'n eu caru.




Mae **cydraddoldeb** a **chynhwysiant** yn faterion pwysig inni.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg



Rydyn ni eisiau i Gymru fod y genedl fwyaf **LHDTC+** gyfeillgar yn Ewrop.



Mae pobl **LHDTC+** yng Nghymru yn aml yn dioddef **gwahaniaethu**.



Fe wnaethom ni ddechrau panel o arbenigwyr a gofyn iddyn nhw ysgrifennu adroddiad.



Pobl a chyrff sydd yn gweithio gyda'r gymuned **LHDTC+** sydd ar y grŵp.




Roedd yr adroddiad yn helpu i weld beth ddylai gael ei roi yn y cynllun gweithredu yma.



Nod y cynllun gweithrediu yma ydy helpu i wneud yn siŵr bod pobl **LHDTC+** yn cael eu trin yn gyfartal. Er mwyn iddyn nhw fod yn ddiogel a charu fel maen nhw eisiau.




**Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am yr hyn rydyn ni wedi'i ysgrifennu yn y cynllun gweithredu hwn**. Darllenwch y ddogfen hon, ac yna atebwch y cwestiynau ar y ffurflen ymateb.

**Mae'r adran yma wedi cael ei hysgrifennu gan:**



**Mark Drakeford AS**
Prif Weinidog



**Jane Hutt AS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



**Hannah Blythyn**
Dirprwy Weinidog Partneriaet Cymdeithasol

# Pam bod y cynllun gweithredu yma yn bwysig?



Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod gan bawb eu hawliau dynol. Mae hyn hefyd yn meddwl pobl **LHDTC+**.

Fe wnaeth **Stonewall Cymru** wneud arolwg o bobl **LHDTC+.** Corff ydy hwn sydd yn hyrwyddo hawliau pobl **LHDTC+**.



Fe wnaeth **Stonewall Cymru** ddarganfod bod y rhan fwyaf o bobl **LHDTC+** yng Nghymru yn poeni am ddweud wrth bobl eu bod yn rhan o’r gymuned **LHDTC+** .



Oherwydd dydyn nhw ddim eisiau cael eu trin yn ddrwg.



Mae bron i hanner y bobl **LHDTC+** yng Nghymru wedi dioddef bwlio fel galw enwau sydd yn brifo ac yn gwneud bywyd yn anodd yn y flwyddyn ddiwethaf.

**Mae pobl LHDTC+ hefyd yn fwy tebygol o:**



- Cael iechyd meddwl gwael



- Cael gofal iechyd gwael



- Defnyddio gormod o alcohol neu gyffuriau, neu smocio



Mae pobl **LHDTC+** sydd hefyd gyda **nodweddion gwarchodedig** eraill yn fwy tebygol o fod mewn perygl



**Nodweddion gwarchodedig** ydy pethau fel hil,oedran, rhywedd, crefydd, anabledd a rhyw




Fe fydd y cynllun gweithredu yma yn ein helpu ni i greu **polisïau** sydd yn gyfeillgar i **LHDTC+**.

**Polisïau** ydy dogfennau wedi eu hysgrifennu sydd yn dweud y rheolau am sut rydyn ni'n gwneud pethau.

# Cynllun gweithredu



Mae'r cynllun gweithredu yma yn siarad am 7 gwahanol rannau o fywyd. Ac mae 1 adran yn siarad am bob rhan o fywyd.

## Gweithredu ar gyfer pob rhan o fywyd




Fe fyddwn ni'n cryfhau **cydraddoldeb** a hawliau dynol i bobl **LHDTC+**.



Fe fyddwn ni yn cefnogi Llywodraeth y DU i amddiffyn pobl **trawsrywiol** ac **anneuaidd**.




**Anneuaidd** ydy pan dydych chi ddim yn teimlo eich bod yn wryw neu benyw yn unig.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl **LHDTC+** yn cael eu derbyn ar draws Cymru.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb sydd yn gweithio yn y **sector cyhoeddus** yn gwybod am anghenion **LHDTC+**.




Mae'r **sector cyhoeddus** yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai



Fe fyddwn ni'n helpu i herio'r ffordd mae pobl yn beirniadu eraill. Er enghraifft pan mae rhywun yn meddwl bod rhywun arall yn fenyw dim ond oherwydd bod ganddyn nhw wallt hir.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod anghenion pobl **LHDTC+** yn cael eu rhoi yn ein cynlluniau. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl **LHDTC+** yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal pan fyddwn ni'n ysgrifennu cynlluniau ac yn gwneud penderfyniadau.



Fe fyddwn ni'n casglu gwybodaeth i ddeall yn well y **gwahaniaethu** mae cymunedau **LHDTC+** yn ei ddioddef.



Fe fyddwn ni'n cadw'r panel o arbenigwyr i'n helpu ni i edrych ar ein cynllun a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio.

## Gweithredu ar gyfer hawliau dynol



Rydyn ni eisiau i bobl **LHDTC+** gael bywyd llawn a rôl gyfartal mewn cymdeithas Gymreig.




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl **anneuaidd** yn cael eu derbyn a'u cynnwys yn ein **polisïau**.




Rydyn ni eisiau i Lywodraeth y DU adael inni wneud ein penderfyniadau ein hunain am y **Ddeddf Cydnabod Rhywedd**, er mwyn inni allu cefnogi ein cymuned **trawsrywiol**. Deddf ydy hon sydd yn gwneud yn siŵr bod pobl **trawsrywiol** ac **anneuaidd** yn gallu byw bywyd llawn.



Rydyn ni eisiau **stopio therapi trosi LHDTC+**- pan mae therapydd yn ceisio stopio neu newid rhywun sydd yn **LHDTC+**



Rydyn ni eisiau stopio gofyn am wybodaeth bersonol sydd ddim ei angen i bobl. Er enghraifft, beth ydy eu henw, oedran a rhywedd ar ffurflenni.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl **LHDTC+** yn gwybod eu hawliau a bod ganddyn nhw gefnogaeth i herio'r rhain .

## Gweithredu i wneud yn siŵr bod pobl LHDTC+ yn ddiogel



Fe fyddwn ni'n gofyn i'r heddlu wneud yn siŵr eu bod nhw'n gweithio'n agos gyda phobl gyda **nodweddion gwarchodedig**.



Rydyn ni eisiau i'r heddlu a phartneriaid wneud yn siŵr bod **trosedd casineb LHDTC+** yn cael ei adrodd.

**Trosedd casineb** ydy pan mae rhywun yn achosi niwed i berson arall oherwydd y ffordd maen nhw.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chwmnïau a gwefannau i ddelio gyda **throseddau casineb**. Er enghraifft, gofyn i Facebook gael gwared ar sylwadau sydd yn brifo neu gofyn i bapurau newydd fod yn ofalus am sut maen nhw'n adrodd y newyddion.



Rydyn ni eisiau gweithio'n agos gyda phobl â **nodweddion gwarchodedig** i wybod am broblemau sydd ganddyn nhw gyda staff fel heddlu, meddygon, nyrsus a'r frigâd dân



Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar gamdriniaeth yn y gymuned **LHDTC+**. Fe fyddwn ni'n ceisio darganfod pam bod pobl yn poeni am ddweud pan maen nhw wedi cael eu trin yn ddrwg.

## Gweithredu ar gyfer cartrefi a chymunedau



Fe fyddwn ni'n cefnogi grwpiau a chyrff **LHDTC+** i ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru.



Fe fyddwn ni hefyd yn helpu rhagor o wasanaethau Cymraeg i bobl **LHDTC+**.



Fe fyddwn ni'n meddwl am sut rydyn ni'n gallu cefnogi a chyllido gwasanaethau yn well i bobl ifanc **LGBTQ+**. Fel bod pobl ifanc **LGBTQ+** yn gallu cael cefnogaeth y tu allan i'r ysgol ac yn yr ysgol.




Fe fyddwn ni'n defnyddio dyddiadau pwysig ar gyfer pobl **GBTQ+** i godi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, digwyddiadau **Pride** ym mis Mehefin, **mis hanes LGBTQ+ history** ym mis Chwefror.



Fe fyddwn ni yn noddi Pride Cymru, er mwyn iddyn nhw allu rhedeg digwyddiadau Pride ar draws Cymru. Ac fe fyddwn ni yn cyflogi **Cydgysylltydd Pride Cymru**. Dyma berson fydd yn cefnogi ac yn cadw golwg ar ddigwyddiadau Pride yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau darparu cymorth i helpu pobl **LHDTC+** i ddod yn arfweinwyr gwleidyddol.

# Gweithredu ar gyfer chwaraeon a diwylliant



Rydyn ni eisiau gweithio gyda'r gymuned **LHDTC+** i helpu i ddatblygu chwaraeon a diwylliant a gwneud yn siŵr eu bod yn fwy cynhwysol i bobl **LHDTC+**.



Mae diwylliant yn meddwl pethau fel cerddoriaeth a'r celfyddydau.




Rydyn ni eisiau darparu arian i gyrff chwaraeon a diwylliant sydd yn gweithio gyda chymunedau **LHDTC+**.



Rydyn ni eisiau i ragor o bobl **LHDTC+** gymryd rhan mewn chwaraeon a diwylliant, yn cynnwys ar lefel rhaolaeth .



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod rhagor am bobl **LHDTC+** mewn chwaraeon a diwylliant



Fe fyddwn ni'n dathlu cymunedau **LHDTC+** yng Nghymru. Ac yn cefnogi amgueddfeydd i helpu i gasglu gwybodaeth a gwrthrychau o'r gymuned . **LHDTC+**



Fe fyddwn ni'n cefnogi digwyddiadau **Pride** ac yn gwneud yn siŵr bod y **sector cyhoeddus** yn gweithio gyda threfnwyr **Pride** i ddathlu.




Fe fyddwn ni'n gweithio gyda **Chwaraeon Cymru** a chyrff eraill i edrych ar sut i wneud chwaraeon yn fwy cynhwysol i bobl **trawsrywiol**.



Fe fyddwn ni'n meddwl am sut i wneud chwaraeon a diwylliant yn fwy cynhwysol.



Rydyn ni eisiau i wahanol gyrff weithio gyda'i gilydd i rannu sut maen nhw yn gallu gweithio ar eu gorau.

## Gweithredu ar gyfer grwpiau ffydd



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gallu cefnogi gwahanol grwpiau ffydd i gael lleoedd agored a chyfeillgar i bobl **LHDTC+**.

## Gweithredu ar gyfer digartrefedd



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau digartrefedd yn darparu gwasanaethau addas i bobl **LHDTC+**.



Fe fyddwn ni yn dysgu oddi wrth brosiectau fel prosiect Ty Pride. Mae'r prosiect yma yn cefnogi pobl ifanc **LGBTQ+** ac mae'n rhoi cartref diogel iddyn nhw. Fe fyddwn ni yn rhannu beth rydyn ni wedi ei ddysgu gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru

## Gweithredu ar gyfer cefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid



**Ceiswyr Lloches** ydy pobl sydd yn gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl. Maen nhw'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.

**Ffoadur** ydy rhywun sydd wedi gorfod gadael eu gwlad. Oherwydd rhyfel neu oherwydd bod eu bywyd wedi cael ei fygwth




Fe fyddwn nI'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i ofyn am wybodaeth am **geiswyr lloches LHDTC+** pan maen nhw'n gofyn am gael aros yn y DU.



Fe fyddwn ni yn gwneud cartrefi **LGBTQ+** yn unig ar gael yng Nghymru fel ein bod ni yn gallu cadw ceiswyr **lloches LGBTQ+** yn ddiogel.




Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chyrff sydd yn cefnogi **ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+** i'n helpu ni i wneud ein **polisïau** yn well.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan **geiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+** fynediad i gymorth iechyd meddwl.

# Gweithredu ar gyfer gwella iechyd



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl **LHDTC+** i ddelio gyda phroblemau iechyd fel rhyw ac iechyd, defnyddio cyffuriau ac alcohol a iechyd meddwl.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau **mamolaeth** a **ffrwythlondeb** yn hawdd i bobl **LHDTC+** eu defnyddio. Mae gwasanaethau ar gael sydd yn helpu pobl i gael plant.



Fe fyddwn ni'n hyfforddi ein staff GIG a gofal cymdeithasol i ddeall problemau iechyd **LHDTC+**




Fe fyddwn ni'n meddwl am bobl **LHDTC+** pan fyddwn ni'n edrych ar ein dogfennau canllaw a **pholisïau**.



Fe fyddwn ni'n edrych ar wasanaethau iechyd meddwl a **LHDTC+** a gwneud y gwasanaethau yn well.




Rydyn ni eisiau creu cynllun gweithredu HIV a **Iechyd Rhywiol** newydd.




Fe fyddwn ni'n gwneud apwyntiadau **iechyd rhywiol** yn fwy hawdd. Fe fydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ffôn a phost .



Fe fyddwn ni yn edrych ar sut rydyn ni'n gweithio gyda phobl ifanc a phlant sydd eisiau deall neu newid eu rhywedd.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl **trawsrywiol** ac **anneuaidd** i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cymryd rhan mewn gwasanaethau gofal iechyd. Ac yn helpu i wella eu gofal iechyd.

# Gweithredu ar gyfer addysg




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys materion **LHDTC+** yn y pethau rydyn ni'n eu dysgu mewn ysgolion.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant i gefnogi pobl **LHDTC+** a delio gydag ymddygiad sydd yn brifo.




Fe fyddwn ni'n darparu gwybodaeth i gefnogi teuluoedd pobl ifanc **LHDTC+**.




Fe fyddwn ni'n creu canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol am bobl **trawsrywiol.**




Fe fyddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i ddelio gyda **throseddau casineb**.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phrifysgolion a cholegau i wneud lleoedd cyfeillgar i **LHDTC+**.




Fe fyddwn ni'n meddwl am roi arian i ymchwil i bobl **LHDTC+**.

## Gweithredu ar gyfer y gweithle




Fe fyddwn ni'n helpu cyflogwyr i hyfforddi eu staff i fod yn fwy **LHDTC+** gyfeillgar.




Fe fyddwn ni'n rhoi gwybodaeth am hawliau cyflogaeth i bobl **trawsrywiol**. Ac fe fyddwn ni'n rhoi'r wybodaeth yma i gyflogwyr.



Fe fyddwn ni'n gofyn i gyrff gasglu gwybodaeth am y mathau o bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.

## Gweithredu o Covid-19



Fe fyddwn ni'n meddwl am brofiadau pobl **LGBTQ+,** yn enwedig plant a phobl ifanc **LGBTQ+** wrth inni ddod allan o'r cyfnod clo.



Fe fyddwn ni'n gwneud ymchwil i sut mae Covid-19 wedi effeithio ar bobl **LHDTC+** yng Nghymru.

# Geiriau anodd

### Anneuaidd
Anneuaidd ydy pan dydych chi ddim yn teimlo eich bod yn wryw neu benyw yn unig.

### Cesiwyr lloches
Ceiswyr lloches ydy pobl sydd yn gadael eu gwlad i ddianc rhag peryg. Maen nhw'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.

### Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

### Cynhwysiant
Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg

### Ffoadur
Ffoadur ydy rhywun sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad. Oherwydd rhyfel neu mae eu bywyd wedi cael ei fygwth

### Gwahaniaethu
Gwahaniaethu ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

## Hunaniaeth rhywiol

Hunaniaetyh rhywiol ydy pwy ydych chi yn hoffi yn rhywiol. Er enghraifft lesbiad, dyn hoyw, deurywiol,heterorywiol.

## LGBTQ+

LHDTC+ yn meddwl Lesbiad, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol. Queer neu Cwestiynu ac eraill:

- **Lesbiaid** ydy menywod sydd yn hoffi menywod eraill.
- Dynion **hoyw** ydy dynion sydd yn hofi dynion eraill.
- Pobl **deurywiol** ydy pobl sydd yn hoffi dynion a menywod.
- Pobl **trawsrywiol** ydy pobl sydd yn cael eu geni fel un rhyw ond sydd y rhyw arall. Er enghraifft, efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn fenyw ar y tu mewn.
- Er bod **Queer** wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl **LHDTC+** , mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd positif pan maen nhw'n teimlo nad ydy geiriau fel syth, **hoyw** a **lesbiad** yn eu disgrifio go iawn.
- **Cwestiynu** ydy ar gyfer pobl sydd yn dal i weithio allan pwy ydyn nhw a sut maen nhw'n uniaethu.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn meddwl pethau fel hil, oedran, rhywedd, crefydd, anabledd a rhyw.

## Polisïau

Polisïau ydy dogfennau sydd yn cael eu hysgrifennu sydd yn dweud y rheolau am sut rydyn ni'n gwneud pethau.

## Sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai.

## Trsoedd casineb

Trosedd casineb ydy pan mae rhywun yn achosi niwed i berson arall oherwydd y ffordd maen nhw .